The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Adran 55

## Rhestr Wirio Derbyn Ceisiadau

**Atodiad 3** Nodyn Cyngor Chwech: Paratoi a chyflwyno dogfennau cais

**Dyddiad:** Mai 2022

**Rhestr Wirio Derbyn Ceisiadau Adran 55 Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

Gellir gweld Adran 55 Deddf Cynllunio 2008 yn legislation.gov.uk, yma: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/29/section/55

**YMWRTHODIAD**: Mae'r Rhestr Wirio hon er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n ddogfen gais ffurfiol. Rhestr wirio anstatudol ydyw i'w chwblhau gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Os bydd yr Ymgeisydd yn ei chwblhau neu'n ei defnyddio ar gyfer hunanasesu, ni fydd hynny o bwys yn ystod y cam Derbyn. Oni nodir yn benodol, **mae pob cyfeiriad at yr Arolygiaeth Gynllunio yn ymwneud â swyddogaethau a gynhelir ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.**

| **Adran 55(2) Derbyn Ceisiadau** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | O fewn 28 niwrnod (yn dechrau'r diwrnod ar ôl iddo gael y cais), rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio benderfynu p'un ai derbyn y cais i'w Archwilio ai peidio. | Dyddiad derbyn<br>**20 Ebrill 2022** | Dyddiad disgwyl 28 niwrnod<br>**18 Mai 2022** | Dyddiad y penderfyniad<br>**18 Mai 2022** |
| **Adran 55(3) – caiff yr Arolygiaeth Gynllunio dderbyn cais dim ond os yw'n dod i'r casgliad:** | | **Sylwadau'r Arolygiaeth Gynllunio** | | |
| **Adran 55(3)(a) ac adran 55(3)(c): Ei fod yn gais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu** | | | | |
| 2 | A yw'r datblygiad yn brosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol[1] (NSIP) (neu a yw'n ffurfio rhan o NSIP); ac a yw'r cais yn datgan, ar yr olwg gyntaf, ei fod yn gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu [2] (DCO) o dan Ddeddf Cynllunio 2008, neu eiriau cyfatebol? A yw'r cais yn nodi'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef (h.y. o fewn pa | **Ydyw**<br>Mae'r Datblygiad Arfaethedig a amlinellir yn **Atodlen 1** y **DCO drafft** (**Dogfen 3.1**) yn cynnwys datblygiad sy'n dod o fewn y categorïau yn a14 Deddf Cynllunio 2008. Mae'r datblygiad ar gyfer adeiladu gorsaf gynhyrchu tyrbin gwynt alltraeth ac mae'n bodloni adran 15 Deddf Cynllunio 2008; gan gynnwys 15(3B).<br>Mae hyn yn gyson â'r crynodeb a ddarparwyd yn **Adran 4** y **Ffurflen Gais** (**Dogfen 1.3**) sy'n datgan bod y cais ar gyfer NSIP. | | |

[1] Diffinnir NSIP yn gyffredinol yn adran 14 ac amlinellir y trothwyon manwl ar gyfer pob un o'r categorïau penodedig yn adrannau 15 i 30
[2] Bydd angen caniatâd datblygu ar ddatblygiad os yw'n NSIP neu'n ffurfio rhan o NSIP (adran 31 Deddf Cynllunio 2008)

| | | |
|---|---|---|
| | gategori neu gategorïau yn adrannau 14-30 y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn dod)?<br>Os nad yw'r datblygiad yn dod o fewn y categorïau yn adrannau 14 i 30, a yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cyfarwyddyd o dan adran 35 Deddf Cynllunio 2008 i'r datblygiad gael ei drin fel datblygiad y mae angen caniatâd datblygu ar ei gyfer? | |
| 3 | **Crynodeb: Adran 55(3)(a) ac Adran 55(3)(c)** | Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn fodlon bod y **DCO drafft** (**Dogfen 3.1**) yn cynnwys datblygiad y mae angen caniatâd datblygu ar ei gyfer. |
| **Adran 55(3)(e): Bod yr ymgeisydd, o ran y cais a gyflwynwyd, wedi cydymffurfio â Phennod 2 Rhan 5 (y weithdrefn cyn-ymgeisio)** | | |
| 4 | Yn unol â'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA)[3], a wnaeth yr Ymgeisydd (cyn cynnal ymgynghoriad yn unol ag adran 42) ofyn i'r Arolygiaeth Gynllunio roi Barn Sgrinio mewn perthynas â'r datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef, neu (b) hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio yn ysgrifenedig ei fod yn bwriadu darparu Datganiad Amgylcheddol mewn perthynas â'r datblygiad hwnnw? | **Do**.<br>Ar 2 Ebrill 2020, rhoddodd yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth Gynllunio, yn unol â Rheoliad 8(1)(b) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017, am ei fwriad i ddarparu Datganiad Amgylcheddol (ES) mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig. Derbyniwyd yr hysbysiad cyn dechrau'r ymgynghoriad statudol ar 31 Awst 2021.<br>Darperir copi o'r llythyr hysbysu yn **Atodiad B1** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**). |
| 5 | A dderbyniwyd unrhyw Gynrychiolaethau Digonolrwydd Ymgynghori[4] gan awdurdodau 'A', 'B', 'C' a 'D'; os felly, a ydynt yn cadarnhau bod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau o dan adran 42, adran 47 ac adran 48? | **Do**.<br>Ymatebodd 7 awdurdod (1 cynhaliol a 6 chymdogol) i wahoddiad yr Arolygiaeth Gynllunio i wneud Cynrychiolaeth Digonolrwydd Ymgynghori (AoCR) dyddiedig 22 Ebrill 2022. Gwahoddwyd sylwadau o awdurdod arall nad oedd wedi'i ragnodi (Cyngor Sir Ynys Môn) ar 10 Mai 2022. |

[3] Rheoliad 8 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau AEA 2017), neu, lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol, Rheoliad 6 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (Rheoliadau AEA 2009)

[4] Mae adran 55(4) Deddf Cynllunio 2008 yn darparu bod rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried yr Adroddiad Ymgynghori, ac unrhyw Gynrychiolaethau Digonolrwydd Ymgynghori a dderbyniwyd

| | | |
|---|---|---|
| | | Cadarnhaodd pob un o’r 8 awdurdod a ymatebodd yn eu AoCR fod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â’i ddyletswyddau o dan a42, a47 ac a48 Deddf Cynllunio 2008 a/ neu nad oedd gan yr awdurdod unrhyw sylwadau/ gwrthwynebiadau i’w gwneud. Yr awdurdodau lleol hyn oedd:<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (awdurdod ‘A’) *<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (awdurdod ‘A’)<br>• Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (awdurdod ‘A’)<br>• Cyngor Sir y Fflint (awdurdod ‘A’)<br>• Cyngor Sir Gwynedd (awdurdod ‘A’)<br>• Cyngor Sir Powys (awdurdod ‘A’)<br>• Cyngor Sir Ddinbych (awdurdod ‘B’)<br>• Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>**Sylwer yr ystyriwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn awdurdod cynhaliol i ddechrau. Fodd bynnag mae Paragraff 79 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1) yn datgan “roedd yr ymarfer dethol llwybr ceblau ar y tir ar ôl cwmpasu yn golygu na fyddai seilwaith yn cael ei osod o fewn ffin Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mwyach ac felly amlygwyd Cyngor Sir Ddinbych fel yr unig awdurdod “B” cynhaliol.”*<br><br>Mae’r holl Gynrychiolaethau Digonolrwydd Ymgynghori (AoCRs) a dderbyniwyd wedi cael eu hystyried yn ofalus ac maen nhw ar gael i’w gweld ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol: [https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-awel-y-mor/?ipcsection=docs](https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-awel-y-mor/?ipcsection=docs) |
| **Adran 42: Dyletswydd i ymgynghori** | | |
| A wnaeth yr Ymgeisydd ymgynghori â’r unigolion perthnasol a amlinellir yn adran 42 Deddf Cynllunio 2008 ynglŷn â’r cais arfaethedig? | | |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Adran 42(1)(a) unigolion rhagnodedig[5]? | **Do**.<br><br>Mae’r Ymgeisydd wedi darparu rhestr o unigolion yr ymgynghorwyd â nhw o dan a42(1)(a) ar 31 Awst 2021 yn **Atodiad B3** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**).<br><br>Darperir enghraifft o’r llythyr a anfonwyd at ymgyngoreion a42(1)(a) yn **Atodiad B4** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**).<br><br>Mae’r Arolygiaeth Gynllunio wedi amlygu’r partïon canlynol yn seiliedig ar ddehongliad rhagofalus o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 (y Rheoliadau CFfGR) nad yw'n ymddangos bod yr Ymgeisydd wedi ymgynghori â nhw o dan a42:<br>• Marine Scotland Conservation<br>• Ystad Rheilffyrdd Hanesyddol Priffyrdd Cenedlaethol<br>• Last Mile Gas Limited<br>• Leep Gas Networks Limited<br>• Squire Energy Limited<br>• Forbury Assets Limited<br>• Indigo Power Limited<br>• Last Mile Electricity Ltd<br>• National Grid Electricity System Operator Limited<br>• Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited<br>• Homes England |

[5] Amlinellir ymgyngoreion statudol yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 (y Rheoliadau CFfGR)

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cyngor Cymuned Bodelwyddan<br>• Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor<br>• Cyngor Cymuned Llanasa<br><br>Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi nodi'r Ymgeisydd, Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited, fel y cynhyrchydd trydan perthnasol gyda Phwerau CPO. Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi ymgynghori â gwahanol sefydliadau fel y cynhyrchydd trydan perthnasol gyda Phwerau CPO ar sail rhagofalus.<br><br>Mae’r Arolygiaeth Gynllunio hefyd wedi amlygu Cyngor Sir Ddinbych fel yr Awdurdod Priffyrdd a Dociau a Harbyrau perthnasol. Mae’r Ymgeisydd wedi ymgynghori â’r sefydliad o dan a42(1)(b), ond mae hefyd wedi ymgynghori â sefydliadau gwahanol fel Awdurdod Dociau a Harbyrau ar sail ragofalus.<br><br>Nid yw **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**) yr Ymgeisydd yn esbonio pam na ymgynghorwyd â’r cyrff a amlygwyd uchod. Fodd bynnag, nodir bod y trwyddedau a ddelir gan rai o’r cyrff hyn yn cynnwys Prydain Fawr neu amryw ardaloedd llai o faint, ac nid yw ardaloedd gweithredol pob un yn glir o’r wybodaeth sydd ar gael i’r cyhoedd.<br><br>Mae’r Ymgeisydd wedi amlygu bod gan rai o’r cyrff a restrir uchod fuddiant yn nhiroedd y Gorchymyn ond nid ydynt wedi’u rhestru yn y **Llyfr Cyfeirio** (**Dogfen 4.3**).<br><br>Mae cyngor Adran 51 wedi cael ei roi i’r Ymgeisydd ynglŷn â’r mater uchod: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010112/EN010112-Advice-00010-1-220518%20-%20AYMO%20-%20Acceptance%20s51%20Advice%20(W).docx.pdf |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Adran 42(1)(aa) y Sefydliad Rheoli Morol[6]? | **AMH**.<br><br>Mae **paragraff 67** o'r Adroddiad Ymgynghori (**Dogfen 5.1**) yn cadarnhau nad ymgynghorwyd â'r Sefydliad Rheoli Morol gan fod y datblygiad yn tu allan i awdurdodaethau'r awdurdodau hynny. |
| 8 | Adran 42(1)(b) pob awdurdod lleol o fewn adran 43[7]? | **Do**.<br><br>Mae **Tabl 4** yr **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**) yn rhestru'r holl awdurdodau lleol perthnasol a amlygwyd ac yr ymgynghorwyd â nhw o dan a43 ac a42(1)(b) ar 31 Awst 2021.<br><br>Ymgynghorwyd â'r awdurdod 'B' cynhaliol:<br>• Cyngor Sir Ddinbych<br><br>Ymgynghorwyd â'r awdurdodau 'A' ffiniol:<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>• Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri<br>• Cyngor Sir Powys<br>• Cyngor Sir y Fflint<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>• Cyngor Gwynedd |

[6] O ran unrhyw achos lle y byddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r ardaloedd a nodir yn adran 42(2) Deddf Cynllunio 2008, neu y byddai'n debygol o effeithio arnynt

[7] Dyma'r diffiniad o 'awdurdod lleol' yn adran 43(3) Deddf Cynllunio 2008: Yr awdurdod 'B' lle mae tir y cais o fewn ardal yr awdurdod; yr awdurdod 'A' lle mae unrhyw ran o ffin ardal A hefyd yn rhan o ffin ardal B; yr awdurdod 'C' (haen uwch) lle mae tir y cais o fewn ardal yr awdurdod hwnnw; yr awdurdod 'D' lle mae awdurdod o'r fath yn rhannu ffin ag awdurdod 'C'

| | | |
|---|---|---|
| | | Nid oes unrhyw awdurdodau 'c' neu 'd' ar gyfer y prosiect hwn.<br><br>Amlygwyd Cyngor Sir Ynys Môn o dan a43 fel ymgynghorai nad yw’n rhagnodedig y gallai elfennau alltraeth y datblygiad arfaethedig effeithio arno’n weledol.<br><br>Darperir enghraifft o’r llythyr a anfonwyd at awdurdodau perthnasol a42(1)(b) yn **Atodiad B4** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**). |
| 9 | Adran 42(1)(c) Awdurdod Llundain Fwyaf (os yw yn ardal Llundain Fwyaf)? | **AMH**. |
| 10 | Adran 42(1)(d) pob unigolyn o fewn un categori a44 neu fwy[8]? | **Do**.<br><br>Mae **paragraff 71** yr **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**) yn datgan yr ymgynghorwyd â’r holl unigolion a amlygwyd o dan a42(1)(d) ar 31 Awst 2021.<br><br>Mae **paragraffau 80** i **86** yr **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**) yn crynhoi sut oedd yr Ymgeisydd wedi gwneud ymholiadau diwyd i geisio amlygu ac ymgynghori ag unigolion â buddiant yn y tiroedd yr effeithir arnynt gan y **DCO drafft** (**Dogfen 3.1**). Nid yw’r fethodoleg lawn a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd wedi cael ei darparu.<br><br>Mae **paragraff 84** yr **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**) yn rhoi crynodeb o “ymholiadau diwyd i amlygu’r buddiannau tir perthnasol o dan adran 44 trwy chwiliadau o’r gofrestrfa tir, holiaduron, ac amlygu hawlwyr Categori 3 posibl”. Mae **paragraff 82** yn rhoi penawdau cynnwys yr holiadur ymgysylltu cychwynnol.<br><br>Mae enghraifft o’r llythyr a oedd yn gofyn am wybodaeth gan unigolion â buddiant mewn tir wedi’i chynnwys yn **Atodiad C2.1** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**). Darperir enghraifft o’r holiadur buddiant mewn tir yn **Atodiad C2.2** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**). |

[8] Categori 1: perchennog, deiliad prydles, tenant neu feddiannwr tir; Categori 2: unigolyn sydd â buddiant yn y tir neu sydd â’r pŵer i werthu a throsglwyddo’r tir neu ryddhau’r tir; Categori 3: unigolion y byddai ganddynt hawl neu y gallai fod ganddynt hawl i wneud hawliad perthnasol.

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r unigolion yr ymgynghorwyd â nhw o dan a42(1)(d) wedi'u rhestru yn **Atodiad B6** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**).<br><br>Darperir enghraifft o'r llythyr yn **Atodiad B** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**). |
| **Adran 45: Amserlen ar gyfer ymgynghoriad adran 42** | | |
| 11 | A oedd yr Ymgeisydd wedi hysbysu ymgyngoreion adran 42 o'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad; ac, os felly, a oedd y dyddiad cau a nodwyd gan yr Ymgeisydd yn rhoi 28 niwrnod neu fwy iddynt ymateb, yn dechrau y diwrnod ar ôl iddynt dderbyn y dogfennau ymgynghori? | **Oedd**.<br><br>Darperir enghraifft o'r llythyr a anfonwyd at ymgyngoreion a42 yn **Atodiad B4** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**).<br><br>Cadarnhaodd y llythyr enghreifftiol dyddiedig 27 Awst 2021 fod yr ymgynghoriad wedi dechrau ar 31 Awst 2021 ac wedi dod i ben ar 11 Hydref 2021, gan ddarparu mwy na'r lleiafswm amser sy'n ofynnol i dderbyn ymatebion. |
| **Adran 46: Dyletswydd i hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio o'r cais arfaethedig** | | |
| 12 | A gyflenwodd yr Ymgeisydd wybodaeth i hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio o'r cais arfaethedig; ac, os felly, a gyflwynwyd y wybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio ar y dyddiad y'i hanfonwyd at yr ymgyngoreion Adran 42 neu cyn hynny? A wnaed hyn wrth ddechrau ymgynghori o dan Adran 42 neu cyn hynny? | **Naddo**.<br><br>Mae'r Ymgeisydd yn datgan ei fod wedi hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) o dan a46 ar 27 Awst 2021, a oedd cyn dechrau'r ymgynghoriad a42, a ddechreuodd ar 31 Awst 2021.<br><br>Darperir copi o'r llythyr hysbysu a46 yn **Atodiad B5** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**).<br><br>Ni chyflwynwyd yr hysbysiad a46 i'r Arolygiaeth Gynllunio, ac ni throsglwyddwyd ef i'r Arolygiaeth Gynllunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol ychwaith, felly ni chyhoeddwyd llythyr cydnabod hysbysiad a46 gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Fel y cynghorwyd yn adborth yr Arolygiaeth ar y dogfennau drafft a gyflwynwyd cyn cyflwyno'r cais, nid yw'n ymddangos bod yr Arolygiaeth, na BEIS ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi derbyn yr hysbysiad a46. Nid yw'r Adroddiad Ymgynghori yn cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol, fel cyfeirnod olrhain y Post Brenhinol na chopïau o gyflwyniadau e-bost, i ddangos tystiolaeth o'i gyflwyno. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Felly, mae'r Ymgeisydd yn crynhoi ym **mharagraffau 90** i **95** yr **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**) pam y mae'n credu nad oes unrhyw bartïon wedi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd y ffaith nad yw'r Arolygiaeth wedi derbyn na rhoi cyhoeddusrwydd i'r hysbysiad a46. Cyfeiriodd at gyfnod ymgynghori chwe wythnos, a oedd yn cynnwys arddangosfa ar-lein, naw digwyddiad ymgynghori teithiol, hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg. Darperir enghreifftiau o ddeunydd hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol yn **Atodiad D4** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**). Cyflenwir posteri'r arddangosfa a llyfrynnau gwybodaeth yn **Atodiad D7.1** ac **Atodiad D7.2** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**). Y tu allan i'r cyfnod ymgynghori statudol, roedd gweithgareddau ychwanegol yn cynnwys briffiadau gwleidyddol a chylchlythyrau. Darperir enghreifftiau o gylchlythyrau yn **Atodiad D8.1** i **Atodiad D8.8** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**).<br><br>Yn y cyd-destun hwn, nodir cynnwys yr ymatebion Digonolrwydd Ymgynghoriad gan awdurdodau perthnasol (fel y'u cofnodir ym Mlwch 5).<br><br>Cyfarfu'r Arolygiaeth Gynllunio â'r Ymgeisydd ar 24 Mehefin 2021, cyn y cyfnod ymgynghori statudol, lle trafodwyd ymgynghoriad yr Ymgeisydd. Cynhaliwyd cyfarfod arall ar 8 Tachwedd 2021, ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, lle trafodwyd yr ymgynghoriad.<br><br>Felly, gan ystyried hyn, ochr yn ochr â Digonolrwydd yr ymatebion i'r Ymgynghoriad, mae'r Arolygiaeth yn cytuno â'r Ymgeisydd nad yw'r Arolygiaeth wedi rhagfarnu unrhyw bartïon nad ydynt yn derbyn nac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r hysbysiad a46. |
| **Adran 47: Dyletswydd i ymgynghori â'r gymuned leol** | | |
| 13 | A baratôdd yr Ymgeisydd Ddatganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC) ynglŷn â sut | **Do**.<br><br>Darperir copi o'r SoCC terfynol yn **Atodiad D3.1** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**). |

| | | |
|---|---|---|
| | yr oedd yn bwriadu ymgynghori â phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir? | |
| 14 | A ymgynghorwyd ag awdurdodau 'B' a (lle y bo'n berthnasol) 'C' ynglŷn â chynnwys y SoCC; os felly, a oedd y terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion yn rhoi 28 niwrnod, yn dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd awdurdodau 'B' a (lle y bo'n berthnasol) 'C' wedi derbyn y dogfennau ymgynghori? | **Do**.<br><br>Anfonodd yr Ymgeisydd y SoCC drafft at yr awdurdod lleol cynhaliol, sef Cyngor Sir Ddinbych ('Awdurdod B'), ar 9 Gorffennaf 2021 a rhoddodd ddyddiad cau o 9 Awst 2021 ar gyfer ymatebion, sef mwy na'r lleiafswm amser sy'n ofynnol ar gyfer derbyn ymatebion. Cyflenwir copi o'r llythyr eglurhaol yn **Atodiad D1.2** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**).<br><br>Mae'r awdurdodau 'A' yr ymgynghorwyd â nhw o dan a47 yn cynnwys Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.<br><br>Ymgynghorwyd â Chyngor Sir Ynys Môn fel ymgynghorai nad yw'n rhagnodedig.<br><br>Mae **paragraff 121 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1)** yn datgan bod yr ymgynghoriad wedi cael ei ymestyn i gynnwys yr awdurdodau 'A'. Nid yw'n nodi dyddiadau'n benodol ac nid oes llythyr eglurhaol at yr awdurdodau hyn wedi cael ei gynnwys fel atodiad, ond mae'n rhesymol tybio y cadwyd at yr un graddfeydd amser. |
| 15 | A yw'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ymatebion a dderbyniwyd wrth baratoi'r SoCC? | **Ydy**.<br><br>Mae **Atodiad D2** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**) yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ymgynghori gan bob un o'r saith awdurdod lleol mewn perthynas â'r SoCC drafft ac yn dangos sut mae'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'w hyn a nodwyd ynddynt.<br><br>Mae enghreifftiau o newidiadau o'r SoCC drafft i'r SoCC terfynol yn cynnwys:<br><br>• Ychwanegu testun at yr adran proses ymgynghori yn esbonio rôl yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn y broses ganiatáu DCO<br><br>• Ychwanegu testun yn cyfeirio at dudalennau'r prosiect ar ein gwefan i gael diweddariadau byw am ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Ychwanegu dolen at Gylchlythyr y Prosiect<br><br>Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r ymatebion a dderbyniwyd wrth baratoi'r SoCC. |
| 16 | A sicrhawyd bod y SoCC ar gael i'w archwilio mewn ffordd sy'n gymharol gyfleus i bobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir; ac a gyhoeddwyd hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yng nghyffiniau'r tir yn datgan ble a phryd y gellir archwilio'r SoCC? | **Do**.<br><br>Sicrhawyd bod y SoCC terfynol ar gael yn y lleoliadau canlynol, sy'n rhesymol gyfleus o ystyried lleoliad y Datblygiad Arfaethedig:<br><br>• Llyfrgell Abergele, LL22 7BP (Conwy, hysbysebwyd bod lleoedd parcio cyfyngedig ar gael, mynediad i'r anabl, safle bws gerllaw archfarchnad)<br>• Llyfrgell Llanfairfechan, LL33 0AA (Conwy, hysbysebwyd ei bod yn agos i feysydd parcio am ddim, parcio ar y stryd am gyfnod cyfyngedig)<br>• Llyfrgell Llandudno, LL30 2RP (Conwy, hysbysebwyd ei bod wedi'i lleoli yng nghanol y dref, a bod mynediad i'r anabl, parcio ar y stryd, safle bws gerllaw)<br>• Llyfrgell Bae Colwyn, LL20 7DH (Conwy, hysbysebwyd ei bod wedi'i lleoli yng nghanol y dref, a bod parcio ar y stryd, mynediad i'r anabl, safle bws gerllaw)<br>• Llyfrgell Treffynnon, CH8 7UZ (Sir y Fflint, wedi'i lleoli yn y Ganolfan Hamdden)<br>• Llyfrgell Llanelwy CH8 7UZ (Sir Ddinbych, meysydd parcio cyhoeddus gerllaw)<br>• Llyfrgell Rhuddlan, LL18 2UE (Sir Ddinbych)<br>• Llyfrgell y Rhyl, LL18 3AA (Sir Ddinbych, ger y ganolfan siopa a glan y môr, nifer o feysydd parcio cyhoeddus gerllaw)<br>• Llyfrgell Gyhoeddus Bangor, LL57 1DT (Gwynedd)<br>• Llyfrgell Porthaethwy, LL59 5AS (Wrecsam)<br>• Llyfrgell Biwmares, LL58 8AL (Ynys Môn) |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Canolfan Dwristiaid y Rhyl, LL18 1HZ (Sir Ddinbych, lleoliad glan môr – roedd y lleoliad hwn yn un ychwanegol nad oedd wedi'i gynnwys yn y SoCC)<br>• Llyfrgell Prestatyn (Sir Ddinbych)<br><br>Trwy chwilio ar Google Maps, gwelir bod y lleoliadau hyn ar hyd yr ardal arfordirol ger yr aráe alltraeth, a'r ffin llinell goch ar y tir. Roedd gan yr awdurdod cynhaliol a mwyafrif yr awdurdodau A cyffiniol leoliad ffisegol lle'r oedd dogfennau ar gael, ond nid oedd unrhyw leoliadau o fewn ardaloedd Powys nac Eryri. Mae **Atodiad D2** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**) yn cyfeirio at ddileu lleoliad adneuo o fewn Parc Cenedlaethol Eryri oherwydd ei fod ar gau. Mae'n datgan bod yr holl opsiynau ymarferol ar gyfer yr ardal hon ar gau ar hyd y cyfnod ymgynghori.<br><br>Cyhoeddwyd hysbysiad yn datgan pryd a ble y gallai'r SoCC terfynol gael ei archwilio yn y canlynol:<br>• Daily Post Wales West – 24 Awst 2021 a 31 Awst 2021<br>• London Gazette – 25 Awst 2021<br>• Lloyd's List Daily Briefing – 24 Awst 2021<br><br>Mae'r hysbysiad SoCC a gyhoeddwyd, a roddir yn **Atodiad D3.2** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**), yn datgan ble a phryd yr oedd y SoCC terfynol ar gael i'w archwilio.<br><br>Darperir copïau o'r hysbysiadau a gyhoeddwyd yn **Atodiad E2** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1 Rhan 2** (**Dogfen 5.1.2**). |
| 17 | A yw'r SoCC yn nodi p'un a yw'r datblygiad yn ddatblygiad AEA[9]; ac a yw'n amlinellu sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r | **Ydy**.<br><br>Mae **paragraff 7** y SoCC terfynol yn **Atodiad D3** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**) yn nodi bod y datblygiad yn ddatblygiad AEA ac yn |

[9] Rheoliad 12 Rheoliadau AEA 2017, neu, lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol, Rheoliad 10 Rheoliadau AEA 2009

| | | |
|---|---|---|
| | Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol ac ymgynghori arni? | amlinellu sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol ac ymgynghori arni. |
| 18 | A yw'r Ymgeisydd wedi cynnal yr ymgynghoriad yn unol â'r SoCC? | **Ydy**.<br>Mae **paragraffau 122** i **135** yr **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**) yn amlinellu sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad cymunedol yn unol â'r SoCC terfynol.<br>Mae **Atodiad D3.2** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**) yn amlinellu sut mae'r Ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r ymrwymiadau a nodwyd yn y SoCC terfynol.<br>Mae **Atodiadau H1**, **H2** a **H3** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1 Rhan 2** (**Dogfen 5.1.2**) yn rhoi tystiolaeth bod yr ymrwymiadau yn y SoCC terfynol wedi cael eu cyflawni. |
| **Adran 48: Dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig** | | |
| 19 | A roddodd yr Ymgeisydd gyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig yn y modd a ragnodir, a amlinellir yn Rheoliad 4(2) y Rheoliadau CFfGR? | **Do**.<br>Mae **paragraff 136** yr **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**) yn datgan:<br>"*Mae'r adran hon o'r Adroddiad Ymgynghori yn amlinellu'r gweithgareddau a gynhaliwyd gan yr Ymgeisydd i gydymffurfio â'i ddyletswydd i roi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig o dan adran 48 Deddf Cynllunio 2008. Mae'n rhoi'r wybodaeth sy'n berthnasol i gyhoeddusrwydd adran 48 fel sy'n ofynnol yn yr Adroddiad Ymgynghori o dan Adran 37(7) a'r rhannau perthnasol o ganllawiau'r Arolygiaeth Gynllunio a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.*"<br>Mae **paragraffau 144 a 145** yr **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**) yn dangos y papurau newydd a'r dyddiadau cyhoeddusrwydd a48, fel yr amlinellir isod.<br>Darperir copi o'r hysbysiad a48 yn **Atodiad E1** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1 Rhan 2** (**Dogfen 5.1.2**). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Darperir copïau o’r hysbysiadau cyhoeddedig a amlinellir isod yn **Atodiad E2** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1 Rhan 2** (**Dogfen 5.1.2**): | |
| | | **Papur(au) Newyddion** | **Dyddiad** |
| a) | am ddwy wythnos yn olynol o leiaf mewn un papur newydd lleol neu fwy sy’n cylchredeg yn y cyffiniau y byddai’r Datblygiad Arfaethedig yn cael ei leoli ynddynt; | • The Daily Post<br>• The Daily Post | 24 Awst 2021<br>31 Awst 2021 |
| b) | unwaith mewn papur newydd cenedlaethol; | • The Guardian | 24 Awst 2021 |
| c) | unwaith yn Gazette Llundain ac, os yw’r datblygiad yn effeithio ar dir yn yr Alban, Gazette Caeredin; a | • London Gazette | 25 Awst 2021 |
| ch) | lle mae’r cais arfaethedig yn ymwneud â datblygiad ar y môr –<br>(i) unwaith yn Rhestr Lloyds; ac<br>(ii) unwaith mewn cyfnodolyn masnach pysgota priodol? | • Lloyds List<br>• Fishing News | 24 Awst 2021<br>26 Awst 2021 |
| 20 | A oedd yr hysbysiad Adran 48 yn cynnwys y wybodaeth sy’n ofynnol, a amlinellir yn Rheoliad 4(3) y Rheoliadau CFfGR? | **Oedd.**<br>Mae’r hysbysiad a48 cyhoeddedig, a gyflenwir yn **Atodiad E1** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1 Rhan 2** (**Dogfen 5.1.2**), yn cynnwys y wybodaeth sy’n ofynnol, fel yr amlinellir isod: | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwybodaeth** | **Paragraff** | | **Gwybodaeth** | **Paragraff** |
| a) | enw a chyfeiriad yr Ymgeisydd. | 1 | b) | datganiad bod yr Ymgeisydd yn bwriadu gwneud cais i’r Ysgrifennydd Gwladol am ganiatâd datblygu | 1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| c) | datganiad ynghylch p'un a yw'r cais yn ddatblygiad AEA | 3 | ch) | crynodeb o'r prif gynigion, gan nodi lleoliad neu lwybr y Datblygiad Arfaethedig | 2 |
| d) | datganiad bod y dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau sy'n dangos natur a lleoliad y Datblygiad Arfaethedig ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn y mannau (gan gynnwys o leiaf un cyfeiriad yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig) ac ar yr amserau a nodwyd yn yr hysbysiad | 3 | dd) | y dyddiad olaf y bydd y dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau hynny ar gael i'w harchwilio | 4 |
| e) | p'un a godir tâl am gopïau o unrhyw un o'r dogfennau, y cynlluniau neu'r mapiau, a swm unrhyw dâl | 4 | f) | manylion sut i ymateb i'r cyhoeddusrwydd | 5 |
| ff) | terfyn amser ar gyfer derbyn yr ymatebion hynny gan yr Ymgeisydd, nad yw'n llai na 28 niwrnod ar ôl dyddiad olaf cyhoeddi'r hysbysiad | 5 | | | |

21 A oes unrhyw sylwadau ynglŷn â'r hysbysiad Adran 48 a ddarparwyd uchod?

**Oes**.

Mae'r hysbysiad yn ddwyieithog a chyhoeddwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn yr holl bapurau newydd sy'n ofynnol.

Cyflenwyd sgrin-luniau o erthyglau cyhoeddedig i ddangos tystiolaeth o'r cyhoeddiad priodol yn **Atodiad E2** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1 Rhan 2** (**Dogfen 5.1.2**). Roedd y rhain yn glir ar gyfer y cyhoeddiadau sy'n ofynnol ym mhob achos heblaw am The Guardian, lle'r oedd copi o hysbysiad a48 2021 wedi cael ei ddarparu, ond nid yw hyn yn dangos yr hysbysiad llawn nac enw neu ddyddiad y cyhoeddiad.

| | | |
|---|---|---|
| 22 | A anfonwyd copi o'r hysbysiad Adran 48 at y cyrff ymgynghori AEA ac unrhyw unigolyn yr | **Do**. |

| | | |
|---|---|---|
| | hysbyswyd yr Ymgeisydd amdano yn unol â'r Rheoliadau AEA[10]? | Anfonwyd copi o'r hysbysiad a48 at y cyrff ymgynghori AEA yn rhan o'r ymgynghoriad a42, fel y cadarnheir ym **mharagraff 141** yr **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**).<br><br>Mae enghraifft o'r llythyr ymgynghori a42 a ddarperir yn **Atodiad B4** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**) yn cadarnhau bod copi o'r hysbysiad a48 wedi'i amgáu. |
| **Adran 49: Dyletswydd i ystyried ymatebion i ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd** | | |
| 23 | A yw'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad Adran 42, Adran 47 ac Adran 48? | **Ydy**.<br><br>Mae **Adran 8 (Tabl 6)** yr **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**) yn amlinellu sut roedd yr Ymgeisydd wedi ystyried yr ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd; gan gynnwys p'un a oedd ymatebion wedi arwain at newidiadau i'r cais. Darperir ymatebion manwl i'r ymgynghoriad yn **Atodiad H** yr **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1 Rhan 2** (**Dogfen 5.1.2**).<br><br>Mae'n ymddangos bod y camau gweithredu a lywiwyd gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hadlewyrchu yn ffurf derfynol y cais fel y'i cyflwynwyd. Pan nad yw ymateb penodol wedi arwain at newid i'r cais, mae'n ddigon amlwg bod sylw wedi cael ei roi iddo. |
| **Arweiniad ynglŷn â'r weithdrefn cyn-ymgeisio** | | |
| 24 | I ba raddau mae'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r arweiniad statudol 'Deddf Cynllunio 2008: Arweiniad ar y broses cyn-ymgeisio'[11]? | Mae **paragraff 30** yr **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**) yn datgan bod yr Ymgeisydd wedi ystyried yr holl arweiniad statudol perthnasol ac arweiniad arall.<br>Ar ôl adolygu'r cais, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi amlygu a rhoi ystyriaeth i'r arweiniad statudol perthnasol. |

[10] Rheoliad 13 Rheoliadau AEA 2017, neu, lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol, Rheoliad 11 Rheoliadau AEA 2009

[11] Mae'n rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried i ba raddau y mae'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r arweiniad a gyhoeddwyd o dan adran 50

| | | |
|---|---|---|
| 25 | **Crynodeb: Adran 55(3)(e)** | Mae'r Ymgeisydd wedi cydymffurfio â Phennod 2 Rhan 5 (gweithdrefn cyn-ymgeisio) Deddf Cynllunio 2008. |
| **Adran 55(3)(f) ac Adran 55(5A): Bod y cais (gan gynnwys atodiadau) o safon foddhaol o ystyried i ba raddau y mae'n cydymffurfio ag Adran 37(3) (ffurf a chynnwys cais) ac unrhyw safonau a osodwyd o dan Adran 37(5) ac yn dilyn unrhyw arweiniad perthnasol o dan Adran 37(4)** | | |
| 26 | A yw wedi'i lunio gan ddilyn y ffurf ragnodedig a amlinellir yn Atodiad 2 y Rheoliadau CFfGR, ac a yw'n cynnwys:<br>• datganiad byr sy'n esbonio pam mae'n dod o fewn cylch gorchwyl yr Arolygiaeth Gynllunio; a<br>• datganiad byr sy'n nodi'n glir lleoliad safle'r cais, neu'r llwybr os yw'n gynllun llinol? | **Ydyw**.<br>Mae **adran 4** y **Ffurflen Gais** (**Dogfen 1.3**) yn esbonio pam mae'r datblygiad o fewn cylch gorchwyl yr Arolygiaeth Gynllunio.<br>Mae **adran 5** y **Ffurflen Gais** (**Dogfen 1.3**) yn rhoi disgrifiad annhechnegol byr o'r safle ac mae **adran 6** yn rhoi lleoliad y Datblygiad Arfaethedig.<br>Mae **Cynllun Lleoliad** (**Dogfen 2.1**) wedi cael ei ddarparu. |
| 27 | A gyflwynwyd Adroddiad Ymgynghori gydag ef? | **Do**.<br>Mae'r cais yn cynnwys **Adroddiad Ymgynghori** (**Dogfen 5.1**), **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1** (**Dogfen 5.1.1**) ac **Adroddiad Ymgynghori Atodiad 1 Rhan 2** (**Dogfen 5.1.2**). |
| 28 | Lle mae cynllun yn cynnwys tair dalen ar wahân neu fwy, a ddarparwyd cynllun allwedd sy'n dangos y berthynas rhwng y gwahanol ddalenni?[12] | **Do**.<br>Mae cynllun allwedd wedi'i ddarparu ar gyfer pob cynllun sy'n cynnwys tair dalen ar wahân neu fwy. |
| 29 | A gyflwynwyd y dogfennau a'r wybodaeth a amlinellir yn Rheoliad CFfGR 5(2) gydag ef? | Mae'r dogfennau a'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliad CFfGR 5(2) wedi'u hamlinellu yn y dogfennau a'r lleoliadau yn y cais fel y rhestrir isod: |

[12] Rheoliad 5(4) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

| | Gwybodaeth | Dogfen | | Gwybodaeth | Dogfen |
|---|---|---|---|---|---|
| a) | Lle y bo'n berthnasol, y Datganiad Amgylcheddol sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau AEA[13] ac unrhyw farn neu gyfarwyddyd cwmpasu neu sgrinio | **Barn Gwmpasu** (**Dogfen 6.8.1**)<br><br>**Datganiad Amgylcheddol sy'n cynnwys:**<br>**Crynodeb Annhechnegol** (**Dogfen 6.7.1**)<br>**Cyfrol 1: Penodau Cyflwyniadol** (**Dogfennau 6.1.1-6.1.4**)<br>**Cyfrol 2: Penodau Alltraeth** (**Dogfennau 6.2.1 – 6.2.15**)<br>**Cyfrol 3: Penodau ar y Tir** (**Dogfennau 6.3.1 – 6.3.13**) | b) | Y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft | **Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft** (**Doc 3.1**) |
| | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30). | | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30). |
| c) | Memorandwm Esboniadol sy'n esbonio diben ac effaith darpariaethau yn y DCO drafft | **Memorandwm Esboniadol Gorchymyn Caniatâd Datblygu** (**Dogfen 3.2**) | ch) | Lle y bo'n berthnasol, Llyfr Cyfeirio | **Llyfr Cyfeirio** (**Dogfen 4.3**) |
| | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw. | | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw. |
| d) | Copi o unrhyw Asesiad Perygl Llifogydd | **Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 5, Atodiad 7.1 Asesiad** | dd) | Datganiad ynghylch p'un a yw'r cynnig yn | **Datganiad Niwsans Statudol** (**Dogfen 5.3**) |

[13] Rheoliadau AEA 2017, neu, lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol, Rheoliadau AEA 2009

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniadau Llifogydd ECC ar y Tir** (**Dogfen 6.5.7.1**)<br>**Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 5, Atodiad 7.2 Asesiad Canlyniadau Llifogydd Is-orsaf ar y Tir** (**Dogfen 6.5.7.2**) | | ymgysylltu ag un neu fwy o'r materion a amlinellir yn adran 79(1) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (niwsans statudol) ac, os felly, sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu eu lliniaru neu gyfyngu arnynt | |
| | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw. | | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw. |
| e) | Datganiad o Resymau a Datganiad Ariannu (lle mae'r cais yn ymwneud<br>ag unrhyw Gaffael Gorfodol) | **Datganiad o Resymau** (**Dogfen 4.1**)<br>**Datganiad Ariannu** (**Dogfen 4.2**) | f) | Cynllun Tir sy'n amlygu'r canlynol:-<br>(i) y tir sy'n ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, neu y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arno;<br>(ii) lle y bo'n berthnasol, unrhyw dir y bwriedir arfer pwerau Caffael Gorfodol drosto neu unrhyw hawliau i ddefnyddio'r tir;<br>(iii) unrhyw dir y bwriedir dileu hawddfreintiau, | **Cynllun Tir (Alltraeth)** (**Dogfen2.2**)<br>**Cynllun Tir (Ar y Tir)** (**Dogfen 2.3**) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ymrwymiadau caeth a hawliau preifat eraill mewn perthynas ag ef; ac<br>(iv) unrhyw dir categori arbennig a thir cyfnewid | |
| | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30). | | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30). |
| ff) | Cynllun Gwaith sy'n dangos, mewn perthynas â nodweddion presennol:-<br>(i) lleoliad arfaethedig neu (o ran cynllun llinol) lwybr ac aliniad arfaethedig y datblygiad a'r gwaith; a'r<br>(ii) terfynau ar gyfer cynnal y datblygiad a'r gwaith ac unrhyw derfynau gwyro a ddarperir yn y DCO drafft | **Cynllun Gwaith** (**Dogfen 2.5**) | g) | Lle y bo'n berthnasol, cynllun sy'n amlygu unrhyw ffordd fynediad newydd neu wedi'i newid, cau strydoedd neu ffyrdd neu unrhyw achosion o ddargyfeirio, diddymu neu greu hawliau tramwy neu hawliau mordwyo cyhoeddus | **Cynllun Gwaith Stryd a Mynediad** (**Dogfen 2.6**)<br>**Cynllun Cau Hawliau Tramwy Cyhoeddus Dros Dro** (**Dogfen 2.7**) |
| | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30). | | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30). |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ng ) | Lle y bo'n berthnasol, cynllun gyda gwybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu:-<br>(i) unrhyw safleoedd neu nodweddion cadwraeth natur statudol/anstatudol e.e. safleoedd o bwysigrwydd daearegol/tirwedd;<br>(ii) cynefinoedd rhywogaethau a warchodir, cynefinoedd pwysig neu nodweddion bioamrywiaeth eraill; ac<br>(iii) ardaloedd dŵr mewn cynllun rheoli basn afon,<br>ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o'u cael ar safleoedd, nodweddion, cynefinoedd neu ardaloedd o'r fath | (i) **Cynllun Safleoedd Cadwraeth Natur Statudol / Anstatudol** (**2.8_AyM_NatConsPlan.pdf**)<br>**Categori 5: Adroddiadau RIAA Atodiad 3: Gwybodaeth am Safleoedd Ewropeaidd** (**Dogfen 5.2.3**)<br>Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y safleoedd cadwraeth natur statudol ac anstatudol.<br>Mae'r asesiad o effeithiau ar y safleoedd hyn wedi'i gynnwys yng **Nghyfrol 3, Pennod 3.5: Ar y Tir**<br>**Bioamrywiaeth a Chadwraeth Natur** (**Dogfen 6.3.5**). Mae Ffigur 6 y bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am safleoedd gwarchodedig alltraeth. Mae Ffigurau 7 i 9 yn cynnwys safleoedd gwarchodedig ar y tir. Mae'r rhain yn gyson â 2.8_AyM_NatConsPlan.pdf.<br>**(ii) Cyfrol 3, Pennod 3.5: Bioamrywiaeth a Chadwraeth Natur ar y** | h) | Lle y bo'n berthnasol, cynllun gyda gwybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu unrhyw safleoedd neu nodweddion amgylchedd hanesyddol statudol/anstatudol (e.e. henebion cofrestredig, safleoedd Treftadaeth y Byd, adeiladau rhestredig, safleoedd archaeolegol a meysydd brwydr cofrestredig) ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o'u cael ar safleoedd, nodweddion neu adeileddau o'r fath | **Cynllun Safleoedd neu Nodweddion Statudol / Anstatudol neu'r Amgylchedd Hanesyddol Cyfeirnod Cais 2.1 (2.9 AyM HistEnvPlan.pdf**)<br>Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer elfennau ar y tir ac elfennau alltraeth y Datblygiad Arfaethedig.<br>Mae'r cynllun hwn hefyd yn cynnwys lleoliadau Coetir Hynafol mewn perthynas â therfynau'r Gorchymyn.<br>Mae'r cynllun yn gyson â'r cynlluniau a gyflenwyd ym mhenodau canlynol y Datganiad Amgylcheddol:<br>**Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 2, Pennod 11: Archaeoleg Alltraeth** (**Ffigur 9** (**Dogfen 6.2.11**)<br>**Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 3, Pennod 8: Archaeoleg ar y Tir a Threftadaeth Ddiwylliannol** (**Ffigurau 1 i 5**) (**Dogfen 6.3.8**) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Tir** (**Dogfen 6.3.5, Ffigurau 10 i 22**)<br><br>Mae Atodiadau 5.3 i 5.10 y Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 3, Pennod 3.5: Bioamrywiaeth a Chadwraeth Natur ar y Tir yn cynnwys cynlluniau ychwanegol a gwybodaeth gysylltiedig ynglŷn â rhywogaethau a warchodir.<br><br>Cyflwynir cynlluniau sy'n cynnwys gwybodaeth am foch daear hefyd mewn atodiad cyfrinachol i'r Datganiad Amgylcheddol.<br><br>Cyflwynir yr asesiad o effeithiau ar famaliaid môr alltraeth a chynlluniau cynefin cysylltiedig yn **Atodiad 7.1 y Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 3, Pennod 7, Mamaliaid Môr** (**Dogfen 6.4.7.1**)<br><br>Mae'r asesiad o effeithiau ar rywogaethau adar alltraeth a warchodir wedi'i gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol, Cyfrol 2, Pennod 4 Adareg Alltraeth.<br><br>**(iii)** **Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 4, Atodiad 3.1: Asesiad Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr** (**Dogfen 6.4.3.1**) | | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y cynlluniau (Ffigurau 4 a 5) a'r asesiad o effeithiau ar y cyrff dŵr mewn cynllun rheoli basn afon. |
| | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30). |
| i) | Lle y bo'n berthnasol, cynllun gydag unrhyw wybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu unrhyw dir y Goron | **Cynllun Tir y Goron** (**Dogfen 2.10**) |
| | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30). |

| | | |
|---|---|---|
| | A yw hwn o safon foddhaol? | Ydyw. |
| l) | Unrhyw gynlluniau, lluniadau a thrychiadau eraill sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r cynnig ar gyfer caniatâd datblygu sy'n dangos manylion dylunio, golwg allanol, a gosodiad delfrydol adeiladau/adeileddau, draenio, rheoli dŵr wyneb, dull mynediad i gerbydau a cherddwyr, ac unrhyw le parcio a thirweddu | **Cynllun Lleoliad** (**Dogfen 2.1**)<br><br>**Cyrff Dŵr mewn Cynllun Rheoli Basn Afon** (**Dogfen 2.11**)<br><br>**Cynllun Gwrychoedd a Choed a Warchodir** (**Dogfen 2.12**)<br><br>**Cynllun Tir Categori Arbennig** (**Dogfen 2.4**)<br><br>**Cynllun Gwaith Stryd a Mynediad** (**Dogfen 2.6**)<br><br>**Cynllun Safleoedd Cadwraeth Natur Statudol / Anstatudol** (**Dogfen 2.8**)<br><br>**Cynllun Safleoedd neu Nodweddion Statudol / Anstatudol neu'r Amgylchedd Hanesyddol** (**Dogfen 2.1**) |
| | A ydynt o safon foddhaol? | Ydynt (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30). |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ll) | Unrhyw un o'r dogfennau a ragnodir gan Reoliad 6 y Rheoliadau CFfGR: | **Datganiad Manylion Cysylltiad â'r Grid a Cheblau** (**Dogfen 7.1**)<br><br>**Datganiad Parth Diogelwch** (**Dogfen 7.2**) | m) | Unrhyw ddogfennau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ategu'r cais | **Datganiad Cynllunio** (**Dogfen 8.1**)<br><br>**Adroddiad Cynllun Tystiolaeth AEA** (**Dogfen 8.2**)<br><br>**Cynllun Ymchwilio Archaeolegol Alltraeth Ysgrifenedig Amlinellol** (**Dogfen 8.3**)<br><br>**Cynllun Cyswllt Pysgota a Chydfodoli** (**Dogfen 8.5**)<br><br>**Cynllun Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Alltraeth** (**Dogfen 8.7**)<br><br>**Dogfen Egwyddorion Dylunio** (**Dogfen 8.8**)<br><br>**Nodweddu Safle Gwaredu** (**Dogfen 8.9**)<br><br>**Cod Ymarfer Adeiladu Amlinellol** (**Dogfen 8.13**)<br><br>**Datganiad Ieithyddol Cymunedol** (**Dogfen 8.16**) |
| | A ydynt o safon foddhaol? | Ydynt. | | A ydynt o safon foddhaol? | Ydynt (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30). |

30 A oes unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r dogfennau a ddarparwyd uchod?

**Cynlluniau** – Mae nifer o achosion yn y cynlluniau a gyflwynwyd lle y byddai ychydig o eglurhad yn ddefnyddiol i gynorthwyo'r rhai sy'n paratoi eu Sylwadau Perthnasol. Manylir ar y rhain yn y cyngor a51 cysylltiedig.

**29(b)** – Mae nifer o wallau argraffyddol / anghysondebau yn y dDCO a gyflwynwyd. Manylir ar y rhain yn y cyngor a51 cysylltiedig.

**29(h)** – Nid yw Atodiad 1 a 2 y Datganiad Ariannu (y cyfeirir atynt ym mharagraffau 20, 30 a 34 y Datganiad Ariannu) wedi'u cynnwys gyda'r Datganiad Ariannu.

**29(k)** – Byddai'n ddefnyddiol gwneud testun enwau llwybrau troed yn fwy fel y gellir ei ddarllen a'i amlygu'n rhwydd – sicrhau bod modd chwilio'r testun o hyd.

**29(o)** – Mae'r Cynllun Safleoedd neu Nodweddion Anstatudol neu'r Amgylchedd Hanesyddol a'r Cynllun Lleoliad ill dau wedi'u labelu'n 'Gyfeirnod Cais: 2.1'. Dylid diwygio'r Cynllun Amgylchedd Hanesyddol i 'Gyfeirnod Cais 2.9' yn unol â'r mynegai.

**29(q)** – **Cynllun Ymchwilio Archaeolegol ar y Tir Ysgrifenedig Amlinellol** (**Dogfen 8.14**)

Mae'r ddogfen wedi'i nodi yn y Rhestr Wirio Adran 55 (Dogfen 1.2) o dan flwch 29q fel Dogfen 8.14, ond mae'r cyfeirnod hwn yn anghywir. Mae'r ddogfen ar gael yn Nogfen 6.5.8.5 Atodiad 8.5 WSI ar y Tir.

**29(q)** – **Adroddiad Gwerthuso Torri Ffosydd Treialu Archaeolegol ar y Tir** (**dros dro**) (**Dogfen 8.15**)

Mae'r ddogfen wedi'i nodi yn y Rhestr Wirio Adran 55 (Dogfen 1.2) o dan flwch 29q oherwydd ystyrir ei bod yn ddogfen arall sy'n angenrheidiol i gefnogi'r cais. Ni chyflwynwyd y ddogfen i'r Arolygiaeth ar 20 Ebrill 2022 ac ni chyfeirir ati mewn man arall, h.y. yn y bennod berthnasol o'r Datganiad Amgylcheddol, y ffurflen gais na'r Canllaw i'r Cais.

**Datganiad Amgylcheddol** (**ES**)

Mae'r Datganiad Amgylcheddol, fel y mae wedi'i lunio ar hyn o bryd, yn darparu gwybodaeth gryno am arbenigedd y cwmnïau sy'n gyfrifol am lunio penodau perthnasol y Datganiad Amgylcheddol. Fodd bynnag, o ystyried gofynion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017, dylid ystyried diweddaru'r Datganiad Amgylcheddol i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â'r arbenigwyr unigol allweddol sy'n ymwneud â phob un o bynciau'r Datganiad Amgylcheddol.

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol**<br>Mae Atodiad 3 yr Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol yn cyfeirio at Ffigur 40, ond nid yw'n ymddangos bod hwn wedi cael ei gynnwys yn y ddogfen. Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu fersiwn ddiwygiedig o Atodiad 3 sy'n cynnwys y ffigur hwn.<br><br>Mae cyngor Adran 51 wedi cael ei roi i'r Ymgeisydd ynglŷn â rhai o materion uchod: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010112-000487 | |
| 31 | A yw'r cais yn cynnwys adroddiad sy'n amlygu unrhyw safle(oedd) Ewropeaidd y mae Rheoliad 48 Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 yn berthnasol iddo/iddynt; neu unrhyw safle(oedd) Ramsar y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arno/arnynt, ynghyd â digon o wybodaeth a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud asesiad priodol o'r goblygiadau i'r safle os yw'n ofynnol gan Reoliad 48(1)?[14] | **Ydyw**.<br>Mae Adroddiad i Lywio Asesiad Priodol (RIAA) wedi cael ei ddarparu (**Dogfennau 5.2 a 5.2.1 – 5.2.8**).<br>Mae'r RIAA yn amlygu safleoedd Ewropeaidd perthnasol a'r effeithiau tebygol ar y safleoedd hynny. Ystyrir bod y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad yn ddigonol ar gyfer derbyn.<br><br>Sylwer: Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gallu gofyn cwestiynau yn ystod yr Archwiliad. Gallai hyn olygu bod angen gwybodaeth ychwanegol i lywio'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) a'r awdurdod cymwys. Yn dibynnu ar y math o wybodaeth sy'n ofynnol a'i hargaeledd, mae'n bosibl na fydd modd ei chael yn ystod amserlen statudol yr Archwiliad. |
| 32 | Os yw'r Arolygiaeth Gynllunio yn gofyn amdanynt, dau gopi papur o'r ffurflen gais a dogfennau a chynlluniau ategol eraill[15] | Ni ofynnwyd am unrhyw gopïau caled. |
| 33 | A yw'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r arweiniad statudol 'Deddf Cynllunio 2008: Arweiniad ar y ffurflen gais', ac a yw'r ystyriaeth hon wedi golygu bod y cais wedi cael ei baratoi i | **Ydyw**.<br>Mae **adran 3** y **Llythyr Cais** (**Dogfen 1.1**) yn esbonio sut mae'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r arweiniad statudol ar ffurf y cais. |

[14] Rheoliad 5(2)(g) y Rheoliadau CFfGR
[15] Rheoliad 5(2)(r) y Rheoliadau CFfGR

| | | |
|---|---|---|
| | safon sy'n foddhaol ym marn yr Arolygiaeth Gynllunio? | Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi dangos ystyriaeth i'r egwyddorion yn yr arweiniad. |
| 34 | **Crynodeb – Adran 55(3)(f) ac Adran 55(5A)** | Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn dod i'r casgliad bod y cais (gan gynnwys dogfennau cysylltiedig) wedi cael ei baratoi i safon sy'n foddhaol, yn ei barn hi.<br>O ran yr anghysondebau a amlygwyd ym Mlwch 30 y rhestr wirio hon, er mwyn helpu i hwyluso archwiliad effeithlon ac effeithiol o'r cais, mae cyngor a51 wedi cael ei roi i'r Ymgeisydd ar y cyd â'r penderfyniad i dderbyn y cais. Mae'r cyngor hwnnw wedi'i gyhoeddi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol, yma: https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010112-000487 |
| **Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ffïoedd) 2010 (fel y'u diwygiwyd)** | | |
| **Ffïoedd i gyd-fynd â chais** | | |
| 35 | A dalwyd y ffi yr un pryd ag y cyflwynwyd y cais[16]? | Derbyniwyd y ffi ar 4 Ebrill 2022, cyn i'r cais gael ei wneud. |

| Rôl | Llofnod electronig | Dyddiad |
|---|---|---|
| Rheolwr Achos | Jake Stephens | 18 Mai 2022 |
| Arolygydd Derbyn | Jonathan Hockley ac Alex Hutson | 18 Mai 2022 |

[16] Mae'n rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio godi ffi ar yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r penderfyniad gan yr Arolygiaeth Gynllunio o dan Adran 55 Deddf Cynllunio 2008. Os na fydd yr Ymgeisydd yn talu'r ffi, ni fydd angen i'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried y cais hyd nes y bydd yn derbyn y taliad. Mae'n rhaid talu'r ffi yr un pryd ag y cyflwynir y cais